Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartrefi Cymru Co-operative Gogledd Cymru**

**Cartrefi Cymru**
**30 Stryd y Deon**
**Bangor**
**LL57 1UR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

22, 28, 29 Medi, 3 Hydref 2022.

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Cartrefi Cymru Co-operative Gogledd Cymru

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Darparwr cofrestredig | Cartrefi Cymru Co-operative Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Awst, 2, 3, 4 a 12 Medi 2019. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u perthnasau yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir. Mae trafodaethau cynllunio gofal yn digwydd yn gynnar yn y broses, a chaiff dogfennau gofal eu creu cyn i'r gwasanaeth ddechrau. Mae cynlluniau personol yn gyfredol ac yn cael eu creu ar y cyd â'r bobl. Mae'r cynlluniau yn canolbwyntio ar yr unigolyn; maent yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y cymorth sydd ei angen ar bob person. Mae asesiadau risg ar waith i reoli risgiau a nodwyd i iechyd a diogelwch y bobl. Mae diogelu iechyd y bobl yn flaenoriaeth a chaiff annibyniaeth y bobl ei hyrwyddo. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol, o'u dewis eu hunain. Mae'r staff yn dilyn hyfforddiant priodol ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae trefniadau ar waith ar lefel rheoli i fonitro safon y gofal a'r cymorth a ddarperir yn gyson. Pan fydd angen gwelliannau, gweithredir yn brydlon.

## Llesiant

Mae'r bobl yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n eu cefnogi. Darperir gofal mewn modd parchus, caredig ac yn newis iaith y bobl. Mae'r staff yn cymryd amser i wrando ar y bobl, gan sicrhau eu bod yn deall yn llawn yr hyn y mae'r bobl yn ei ddweud ac yn rhoi eu sylw llawn i ddiwallu anghenion y person. Dywedodd y bobl wrthym *"Dwi'n teimlo'n gyfforddus ac yn hapus yma", "(Mae'r staff yn) bobl dda, neis"* a *"Gwych".*

Darperir cefnogaeth i'r bobl gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae hyn yn helpu i hybu llesiant emosiynol y bobl a'u hymdeimlad o berthyn. Mae perthnasau yn canmol y gwasanaeth a ddarperir. Roedd yr adborth a gafodd AGC gan berthnasau yn cynnwys y canlynol: *"Gofal eithriadol", "Gofal ardderchog", "Rwy'n fwy na hapus gyda'r gofal mae fy (mherthynas) yn ei dderbyn", "Hapus iawn gyda lefel y gofal", "Mae'r staff yn dangos gofal gwirioneddol, ac yn mynd allan o'u ffordd i wneud bywyd (fy mherthynas) mor gyfforddus a boddhaus â phosib*", *"Staff medrus"* a *"Staff ymroddedig".* Mae perthnasau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau yn iechyd neu anghenion y bobl.

Hyrwyddir hawliau'r bobl. Darperir cyfleoedd i alluogi'r bobl i gymryd rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae dewisiadau ar gael mewn perthynas â sut mae'r bobl yn dymuno treulio eu diwrnod, a pha sgiliau yr hoffent ddod yn fwy hyderus ynddynt. Hyrwyddir annibyniaeth trwy ddefnyddio cymorth gweithredol ac mae cynlluniau ysgrifenedig ar waith i ddatblygu'n barhaus gallu'r bobl i wneud pethau eu hunain. Dywedodd un person wrthym fod y cymorth a ddarparwyd *"Yn fy helpu i fyw bywyd normal*". Anogir y bobl i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau addysgol, hamdden a chymdeithasol. Gallant gymryd rhan fel unigolyn neu o fewn grwpiau, neu'r ddau, yn dibynnu ar yr hyn sydd orau gan bob person.

Darperir cymorth i ddiwallu anghenion llesiant corfforol ac emosiynol y bobl. Mae cyflyrau iechyd y bobl yn hysbys ac yn cael eu cofnodi, ac mae trefniadau amrywiol ar waith i helpu'r bobl i aros yn iach. Mae cynlluniau personol ar waith sy'n cofnodi'n fanwl anghenion iechyd meddwl y bobl, pa gymorth sydd ei angen ar y bobl a sut y dylai'r staff ddarparu cymorth i bob person. Mae teuluoedd yn ymwneud â chreu cynlluniau cymorth y bobl, lle bo'n briodol, ac mae hyn yn helpu i sicrhau parhad yn y cymorth y mae'r bobl yn ei gael. Mae'r staff yn gyfarwydd â hoff bethau a chas bethau'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth. Mae mesurau ar waith ar bob lefel o'r gwasanaeth a ddarperir i sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae'r staff yn ymwybodol o'u dyletswydd i adrodd am unrhyw faterion diogelu ac maent yn teimlo'n hyderus yn gwneud hynny. Mae'r rheolwyr yn dilyn y polisi diogelu ac yn adrodd am faterion i'r awdurdod lleol yn briodol. Cymerir camau cadarn mewn ymateb i faterion diogelu a nodwyd, i wella canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod eu hanghenion unigol yn hysbys a bod cynlluniau cyfredol ar waith yn nodi sut y darperir eu gofal. Cyn i'r gwasanaeth gael ei ddarparu, mae'r cynllun personol cychwynnol yn cael ei greu trwy gael cynlluniau cymorth ac asesiadau risg gan y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, sydd eisoes yn hysbys i'r person. Mae cynlluniau personol y bobl yn cael eu datblygu ymhellach gan y darparwr trwy drafodaethau parhaus gyda'r bobl a'u perthnasau. Mae'r cynlluniau personol yn cael eu hadolygu'n barhaus ac yn cael eu datblygu i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn anghenion gofal a chymorth y bobl. Hysbysir comisiynwyr pan fydd anghenion gofal y bobl yn newid yn sylweddol a phan fydd hyn yn effeithio ar allu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

Darperir gofal a chymorth yn unol â chynlluniau personol y bobl ac asesiadau risg cysylltiedig. Mae cynlluniau personol yn cofnodi'n fanwl anghenion unigol pob person, sut y caiff yr anghenion hynny eu diwallu, yn ogystal â'r canlyniadau y mae'r bobl yn dymuno eu cyflawni. Mae hoff bethau a chas bethau'r bobl a'u dewisiadau yn cael eu cofnodi. Mae hyn yn cefnogi parhad yn y gofal y mae'r bobl yn ei dderbyn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall anghenion y bobl yr oeddent yn eu cefnogi ac maent yn gyfarwydd â dymuniadau'r person ynglŷn â'r modd y rhoddir cymorth. Mae asesiadau risg ar waith, sy'n rheoli risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl. Mae unrhyw beth sy'n *'sbardun'* a'r strategaethau y gwyddys eu bod yn gweithio'n dda i ymateb i hwnnw yn cael eu cofnodi, sy'n helpu i gefnogi llesiant emosiynol y bobl.

Caiff iechyd y bobl ei hyrwyddo. Mae cyflyrau iechyd unigol yn hysbys ac yn cael eu cofnodi. Mae'r staff yn eiriol ar ran y bobl i sicrhau eu bod yn gweld gweithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen, a bod cymorth yn cael ei ddarparu er mwyn gallu dilyn y cyngor a'r arweiniad a dderbyniwyd. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i dderbyn eu meddyginiaeth, fel y rhagnodir, er mwyn rheoli eu cyflyrau iechyd. Mae cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi i fwyta deiet iach ac i yfed digon o ddŵr. Mae'r staff yn dilyn hyfforddiant meddyginiaeth, a chaiff eu dealltwriaeth ei phrofi cyn iddynt gefnogi'r bobl â'u meddyginiaeth. Mae trefniadau ar waith ar lefel uwch i fonitro a goruchwylio'r gwaith o reoli meddyginiaethau o fewn y gwasanaeth.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol am godi unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch diogelwch a llesiant y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith sy'n rhoi arweiniad clir i'r staff ar sut i amddiffyn y bobl rhag niwed. Mae’r polisi Chwythu’r Chwiban sydd ar waith yn cefnogi'r staff pe bai angen iddynt godi pryderon diogelu. Darperir hyfforddiant diogelu a chyflwynir adroddiadau diogelu yn briodol i awdurdodau lleol, pan fo angen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau clir ar waith i oruchwylio’r gwaith o redeg y gwasanaeth yn esmwyth, sy'n cyfrannu at allu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben ac i sicrhau bod y bobl yn ganolog i'r gwasanaeth. Mae systemau ar waith, ar lefelau uwch-aelodau staff gofal a rheolwyr, i wirio'n gyson bod y gwasanaeth a ddarperir yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r darparwr. Gwneir hyn o bell, yn electronig yn ogystal ag wyneb yn wyneb ym mhob lleoliad gofal. Pan fydd angen gwelliannau, cymerir camau yn gyflym i wneud y newidiadau angenrheidiol.

Gall y bobl fod yn sicr bod prosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn gyson. Mae'r unigolyn cyfrifol dynodedig yn ymweld â'r lleoliadau, yn ôl yr angen, ac yn ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ynghylch eu profiad o'r gofal a ddarperir. Mae adroddiadau ar gael yn tystio i'r adborth a dderbyniwyd a chanlyniad ymweliadau'r unigolyn cyfrifol. Gall y bobl a'u cynrychiolwyr hefyd rannu eu barn yn ystod adolygiadau ansawdd gofal strwythuredig, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adborth a ddarperir yn cael ei gofnodi a gweithredir arno'n briodol, sy'n cyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth. Mae polisi cwynion ar waith a phroses ar waith ar gyfer derbyn ac ymateb i gwynion yn briodol.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff sy'n derbyn hyfforddiant addas a chefnogaeth gan y rheolwyr. Cwblheir gwiriadau fel rhan o'r broses recriwtio a chyn cyflogi i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Mae staff newydd yn cwblhau cyfnod sefydlu ac yn ymgymryd â shifftiau cysgodol pan fyddant yn dechrau gweithio yn y gwasanaeth. Darperir hyfforddiant sy'n cynorthwyo'r staff i ddeall anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi, ynghyd â hyfforddiant mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau'r staff. Dywedodd y staff wrthym bod hyfforddiant yn *“flaenoriaeth”* a bod *“cyfleoedd gwych i ddysgu a datblygu*” yn cael eu darparu. Mae’r rheolwyr llinell yn darparu sesiynau goruchwylio un-i-un rheolaidd ac mae cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal. Mae’r staff yn mwynhau eu gwaith, yn teimlo ei fod *“yn rhoi boddhad”,* a'u bod yn *“gweithio'n dda fel tîm”.* Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn teimlo eu bod yn derbyn *“Cefnogaeth ardderchog”* gan eu rheolwr.

Gall y bobl gael mynediad at wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth a ddarperir. Mae datganiad o ddiben ar waith sy’n disgrifio’n gywir y gwasanaeth a ddarperir a’r trefniadau sydd ar waith i gefnogi’r gwaith o ddarparu’r gwasanaeth. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael hefyd, sy'n rhoi gwybodaeth am ddiwylliant ac ethos y gwasanaeth a sut y darperir y gwasanaeth. Mae hyn yn galluogi'r bobl i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â defnyddio'r gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| --- | --- | --- |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 10/11/2022